# PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

**28 Mehefin 2017**

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin, Dr R Heath-Davies, Mr AE Sangster, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland; Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro) a Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro).

[Cyrhaeddodd Mr S Bradley (PLANED) yn ystod y drafodaeth ar adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (gweler cofnod 6).]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am-12.55pm)

**1. Penodi Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid penodi Mr AE Sangster yn Gadeirydd am y flwyddyn.

**2. Penodi Is-gadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** y dylid penodi'r Cynghorydd RM Lewis yn Is-gadeirydd am y flwyddyn.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Mr R Smith a Ms L Williams (Twristiaeth Sir Benfro).

**4. Datgelu Buddiant**

Datgelodd Mr S Bradley fuddiant personol yn SDF 0368, SDF 0370 ac SDF 0371, ond arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y trafodaethau. Datgelodd Mr P Howe fuddiant personol yn SDF 0369; fodd bynnag, arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y trafodaethau; datgelodd Mr P Howe fuddiant niweidiol yn SDF 0370 a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**5. Cofnodion**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2017 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2017 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.

**6. Adroddiad am y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu'r pedwar cais a oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr holl brosiectau cyfredol a'u cynnydd.

Yna, aeth Gweinyddwr y Gronfa ymlaen i roi gwybod am y sefyllfa ariannol. Roedd £200,000 wedi cael ei ddyrannu i'r Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18. Roedd £19,218 o gyllid heb ei hawlio wedi cael ei gario ymlaen o 2016-17 i 2017-18 a oedd yn golygu bod cyfanswm o £219,218 o gyllid ar gael i gefnogi prosiectau yn y flwyddyn ariannol hon. Roedd £127,261 eisoes wedi'i ymrwymo, a oedd yn gadael £91,957 o gyllid heb ei ymrwymo a oedd ar gael ar gyfer prosiectau newydd yn 2017-18. Roedd y ceisiadau a ddaeth i law yn gofyn am £99,429 yn 2017-18 a £36,214 yn 2018-19, a oedd yn golygu pe’r ystyrir bod yr holl brosiectau yn deilwng o gefnogaeth y byddai diffyg o £7472 yn 2017-18. Fodd bynnag, roedd gan y Gronfa swm wrth gefn o bron i £29,000 (nid £129,000 fel yr adroddwyd), a allai fod ar gael pe byddai nifer ac ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law yn 2017-18 yn cyfiawnhau hynny.

O ran y cynllun Grant Bach Gwyrdd (GBB), dim ond un prosiect oedd wedi gwneud cais ac a oedd yn cael cefnogaeth yn 2017-18 ac roedd £3,000 yn parhau i fod wedi'i ymrwymo i'w ddyrannu i brosiectau’r GBB. Dywedwyd mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) oedd yn gweinyddu’r cynllun hwn.

Soniwyd fod diwygiadau i Bolisi’r Gronfa, Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac Amodau’r Grant wedi'u cymeradwyo gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Mawrth 2017, ac roedd copi o'r rhain ynghlwm wrth yr adroddiad er gwybodaeth. Fel y nodir yn y dogfennau diwygiedig, byddai’r broses o benodi Aelodau Ymgynghorol i'r Pwyllgor yn digwydd cyn mis Awst 2017 pan fydd tymor yr Aelodau Ymgynghorol presennol yn dod i ben.

Yn olaf, dywedodd Gweinyddwr y Gronfa wrth y Pwyllgor y byddai'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei harddangos yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, mewn digwyddiad partneriaeth gyda'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru a’r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Yr astudiaeth achos a gyflwynwyd gan APCAP oedd prosiect ArborCulture - ailddefnyddio gwres compost i sychu coed tân mewn odyn. Roedd ArborCulture (LM Tree Solutions gynt), sy’n fusnes bach trin coed a rheoli coetiroedd yn y Parc Cenedlaethol, wedi cael cyllid i ddylunio ac adeiladu odyn coed tân wedi'i gwresogi yn ecolegol.

**NODWYD.**

**8. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Ystyriodd y Pwyllgor bedwar cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (y Gronfa). Trafodwyd y ceisiadau yn fanwl ar sail meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr. Atgoffodd Gweinyddwr y Gronfa yr Aelodau fod nifer o'r ceisiadau ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.

| Rhif Cyf | Enw'r prosiect | cyflwyniad gan | sefydliad |
|---|---|---|---|
| SDF 0368 | Prosiect Cadwyn Gyflenwi Adnewyddadwy'r Môr | Ceri Crichton<br>Holly Precious | Fforwm Arfordir Sir Benfro (PCF) |
| SDF 0369 | Canolfan Gymunedol Brynberian | Dai Llewellyn<br>Yr Athro Pat Capland<br>Angela Walmsley | Canolfan Gymunedol Brynberian |
| SDF 0370 | Pod Awyr Agored Sir Benfro | Sian Ranahan | FRAME Sir Benfro |
| SDF 0371 | Coleg y Môr - Cam 2 | Anna Elliot<br>Laura Lemey | Ymddiriedolaeth y Môr CIC |

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor, o dan ei gylch gorchwyl, fod y penderfyniadau i gael eu gwneud gan yr Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan ystyried barn yr Aelodau Ymgynghorol a oedd yn bresennol.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

(a) rhoi'r swm llawn o arian y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, yn ddarostyngedig i amodau arferol y grant ac unrhyw gafeatau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod (ac y manylir arnynt isod):

(i) SDF 0368 - Prosiect Cadwyn Gyflenwi Adnewyddadwy'r Môr.

(ii) SDF 0369 - Canolfan Gymunedol Brynberian - yn amodol ar fod y Cynllun Busnes yn cael ei adolygu'n foddhaol gan Weinyddwr y Gronfa / y Rheolwr Cyllid.

(iii) SDF 0371 - Coleg y Môr - Cam 2 - awgrymwyd y dylid ceisio cyngor ychwanegol gan PAVS ynghylch meithrin sylfaen ehangach o gefnogwyr a allai fod yn ffynhonnell ychwanegol

o incwm; hefyd, bod ei sylw yn cael ei dynnu at gyllid cenedlaethol a allai helpu gyda'i raglen brentisiaeth.

(b) bod y cais canlynol yn cael ei wrthod:

(i) SDF 0370 - Pod Awyr Agored Sir Benfro: Mynegodd y Pwyllgor amheuon ynghylch hyfywedd ariannol y cynnig. Ystyriwyd bod y lle awyr agored sydd ar gael ar gyfer plannu gardd yn fach ac nad oedd ei leoliad yn ymyl ffordd brysur yn ddelfrydol. Daethpwyd i'r casgliad hefyd na chyflwynwyd digon o dystiolaeth i ddangos arloesedd na budd i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'i gymunedau.